South West and Mid Wales Consortium
Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru

Bwletin 4
Ionawr/Chwefror 2009

Newyddion…Newyddion…Newyddion…

Cyfleuster chwilio Cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol (CDP)

- Mae rhaglenni CDP 2008 – 2009 bellach ar gael ar-lein yn www.swamwac.org/pdo neu www.swamwac.org/cdp gan ddarparu ffordd gyflym o nodi a chyrchu'r ddarpariaeth CDP yn eich awdurdod chi ac awdurdodau eraill swamwac.
- Bydd rhaglen 2009 – 2010 ar gael yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf

CDP Sir Gâr a Cheredigion 2009 – 2010

Bydd dewislen hyfforddi 2009 – 2010 Sir Gâr a Cheredigion **dim ond** ar gael drwy wefan swamwac yn **www.swamwac.org.uk**

O fis Ebrill 2009, bydd gwybodaeth am **holl** gyrsiau hyfforddi Sir Gâr a Cheredigion **dim ond** ar gael ar wefan swamwac. **Ni fydd CD hyfforddiant**, felly, mae'n bwysig bod athrawon yn gwybod ble i ddod o hyd i gyrsiau pan fyddant yn penderfynu ar eu blaenoriaethau hyfforddi am y flwyddyn nesaf. Bydd dolen i wefan swamwac ar gael ar y safle datblygiad proffesiynol ar Amdro ynghyd â mwy o wybodaeth ynghylch strategaeth DPP 2009 – 2010 Sir Gâr.

Caiff cardiau post sy'n cynnwys cyfeiriad y wefan eu hanfon i holl ysgolion Sir Gâr a Cheredigion, a'u darparu'n uniongyrchol i gyfranogwyr yn ystod cyrsiau tymor y gwanwyn 2009

Arian i barhau
Rydym yn falch iawn ein bod wedi derbyn, ar ddiwedd mis Rhagfyr 2008, gynnig ffurfiol o £100,000 o arian i barhau o Gronfa Wella Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n rhaid gwario'r grant erbyn diwedd mis Awst 2009. Bydd hynny'n ein cynorthwyo i gwblhau llawer o'r camau y cyfeirir atynt yn y Cynllun Strategol a chyflawni'r canlyniadau a ddisgrifiwyd yn ein cais am arian. Gall y sawl a fyddai'n dymuno darllen y cais ei gyrchu ar wefan swamwac.

Rhaglen Ddigwyddiadau'r consortiwm

Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth gychwynnol am ddigwyddiadau a allai fod o ddiddordeb. Os ydych yn trefnu digwyddiadau y byddech yn hoffi iddynt fod ar gael i gydweithwyr ar draws awdurdodau swamwac, rhowch wybod i ni ac mi roddwn ni gyhoeddusrwydd iddynt mewn bwletinau yn y dyfodol a/neu ar y wefan. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar hyn, byddai'n ddefnyddiol petai pawb sy'n bwriadu trefnu digwyddiad gwaith y consortiwm yn cysylltu ag admin@swamwac.org i gadarnhau na fydd unrhyw ddyddiadau'n gwrthdaro.

Digwyddiadau gwaith consortiwm 2009

Teitl	Dyddiad /Amser	Lleoliad	Cynulleidfa	Cyswllt
Mae'r holl Athrawon Newydd Gymhwyso yn athrawon AAA!	Dydd Mercher 18 Mawrth	Canolfan Addysg Clydach	Athrawon newydd gymhwyso	Cheryl Jones Athrawes Ymgynghorol Cynhwysiad Abertawe 01792 562660
Mae'r holl ANG yn athrawon AAA! Cyflwyniad i AAA	Dydd Mercher 25 Mawrth	Canolfan Addysg Clydach	Athrawon prif ffrwd	Cheryl Jones Athrawes Ymgynghorol Cynhwysiad Abertawe 01792 562660
Cynhadledd: Lles Plant: Y Blynyddoedd Cynnar i Lencyndod	Dydd Gwener 24 Ebrill 2009	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	Ymarferwyr Addysg ac Iechyd, a'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.	dhendy@uwic.ac.uk Rhif ffôn: 02920416577

Gwaith y consortiwm - Cynnydd wrth roi Cynllun Strategol 2008 – 2009 ar waith

Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
Mae Grŵp Cydlynwyr Partneriaethau PPI yn canolbwyntio ar faterion datblygu'r gweithlu fel maes allweddol ar gyfer gwaith consortiwm. Maent wedi cytuno ar ddogfennaeth fformat gyffredin a methodoleg gyffredinol ac wedi'u mabwysiadu ar gyfer casglu data, ac wedi ymrwymo i rannu data yn rhanbarthol, er mwyn mapio'r galw yn lleol ac yn rhanbarthol. Lluniwyd cysylltiadau â Phartneriaeth Ddysgu Ranbarthol De-orllewin Cymru (PDdDOC) i rannu gwybodaeth ynghylch y galw am hyfforddiant yn y dyfodol ar gyfer y gweithlu Plant a Phobl Ifanc.

Athrawon Siartredig
Ar ôl llwyddo i ennill tendr ar gyfer cyflwyno ail fodiwl 'Arwain y Dysgu', daeth 12 aelod o bob cwr o Gymru i ddwy sesiwn ddwyieithog 24 awr yn ystod y tymor diwethaf. Bellach maent wrthi'n brysur yn gweithio ar brosiect ymchwil weithredu sy'n ymwneud â gwella ysgolion, y byddant yn rhannu'r canlyniadau â'u cymheiriaid maes o law y flwyddyn hon.

Datblygu'r wefan
Mae cyfres o newidiadau'n cael eu hystyried a'u gweithredu, sydd wedi deillio o awgrymiadau a gafwyd yng Nghynhadledd Cydlynwyr Datblygu Staff Ysgolion a chan nifer o grwpiau'r Consortiwm.
Yn eu plith y mae:

- Ail-lunio'r dudalen flaen
- Gwella'r llywio
- Dolenni i e-byrth awdurdodau
- Ardaloedd diogel ar gyfer trafodaethau
- Gwell cyhoeddusrwydd
- Ychwanegu cynnwys a dolenni i safleoedd defnyddiol
- Ychwanegu gwybodaeth am arfer da

Mae croeso mawr i chi gynnig awgrymiadau neu sylwadau ar gyfer datblygu'r wefan. Gallwch e-bostioadmin@swmwac.org

Pontio
Mae deunyddiau astudiaethau achos Pontio bellach yn fyw ar wefan swamwac yn www.swamwac.org/transition neu www.swamwac.org/cymraeg/Transition

Cynhwysiad
Mae'r gwaith o ddatblygu dogfen Fframwaith IQM Cymru Gyfan bellach wedi dechrau. Y cam nesaf fydd paratoi ar gyfer hyfforddi aseswyr a briffio ysgolion peilot, a bydd yr aseswyr a'r ysgolion peilot yn cael eu henwi gyda hyn.

Gwerthuso gwaith y consortiwm
Mae'n bleser mawr gennym gadarnhau bod yr Athro David Egan wedi'i benodi i weithio gyda'r consortiwm i:

- Ddarparu arweiniad parhaus i wella'r hyn y mae'r consortiwm yn ei gyflawni o ran gwell gwasanaethau, enillion effeithlonrwydd, arfer blaengar, datblygu partneriaeth a gwella ansawdd;
- Monitro cynnydd y Cynllun Strategol, ffactorau llwyddiant a cherrig milltir hanfodol;
- Gwerthuso i ba raddau y cyflawnir yr amcanion a'r hyn y gellir ei gyflawni a amlinellwyd yn y cais am Arian i Barhau yn ystod cyfnod yr arian;
- Gwerthuso'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu strwythurau a threfniadau llywodraethu'r Consortiwm yn unol â'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r ymagwedd at ddatblygu partneriaethau a gwaith consortiwm ar draws yr awdurdodau lleol;
- Llunio barn ynghylch yr ychwanegu gwerth a ddaw yn sgîl gwaith consortiwm i'r awdurdodau o ran datblygu patrymau cyflwyno gwasanaethau gwell i ddinasyddion a chleientiaid.

Mae'r Athro Egan yn adnabyddus ac yn fawr ei barch ym maes Addysg ac ar hyn o bryd, ef yw Cyfarwyddwr cychwynnol y Ganolfan Ymchwil Gymhwysol, Athrofa Prifysgol Cymru.

Rhaglen Asesu ar gyfer CALU
Mae rownd nesaf asesu CALU yn dechrau y mis hwn, i'w gwblhau ym mis Mehefin 2009. Mae 51 ymgeisydd wedi'u cadarnhau o'r chwe awdurdod lleol.

Rheoli Perfformiad
Bu oedi cyn dyrannu'r Ymgynghorwyr Allanol ar gyfer cylch 7, ond bellach mae hynny wedi'i gwblhau.

ACA (Asesu, Cofnodi ac Adrodd)
Mae Grŵp Tasg a Gorffen, sy'n cynnwys aelodau o 6 awdurdod swamwac wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn:

- datblygu cyngor ac arweiniad ysgrifenedig cynhwysfawr i ysgolion ar holl agweddau ACA a safoni ar gyfer CA1 ac ar gyfer CA2/3 yn y pynciau craidd
- nodi deunyddiau ac enghreifftiau o astudiaethau achos arfer da
- nodi anghenion hyfforddiant ynghylch ACA a safoni CA1 a CA2/3 yn y pynciau craidd

Disgwylir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd tymor yr haf, yn barod i'w ddosbarthu i ysgolion ar gyfer tymor yr hydref 2009.

14 – 19
Mae Cydlynydd yr Anogwyr Dysgu wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddi ers mis Tachwedd 2008, a bydd sesiynau'n parhau tan o leiaf diwedd mis Mawrth 2009. Mae'r bobl sy'n cymryd rhan o'r holl siroedd yn astudio'r 5 modiwl Gellir cysylltu â Linda Carlisle, Cydlynydd yr Anogwyr Dysgu drwy e-bost yn learningcoaches@swamwac.org

Adroddiadau o Gynadleddau

Cynhadledd Cydlynwyr Datblygiad Staff Ysgolion 28 Tachwedd 2008
Fel rhan o'r gweithio ar y cyd ynghylch gwella cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff mewn ysgolion, cynhaliwyd cynhadledd ar 28 Tachwedd 2008 yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Roedd y gynhadledd wedi rhoi cyfle i Gydlynwyr Datblygiad Staff Ysgolion Uwchradd i:

- Rwydweithio gyda chydweithwyr o ysgolion uwchradd eraill ar draws y chwe awdurdod
- gweld y gronfa ddata chwiliadwy o gyrsiau datblygiad proffesiynol ar draws y 6 awdurdod ar y we
- Cynnig mewnbwn i ddatblygiad rhaglenni datblygiad proffesiynol 2009 – 2010

Roedd cynrychiolwyr oddeutu hanner yr ysgolion uwchradd yn rhanbarth swamwac yn bresennol ac roedd hynny'n cynnwys ysgolion o bob un o'r chwe awdurdod. Yn gyffredinol, roedd y cynrychiolwyr wedi mwynhau a gwerthfawrogi'r gynhadledd, gyda chefnogaeth benodol i'r sesiynau grŵp a hwyluswyd, gan gynnwys grŵp trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafwyd cyfraniadau gwerthfawr a brwdfrydig gan y cynadleddwyr yn y grwpiau trafod, gydag amrywiaeth o syniadau'n dod i'r golwg ynghylch dulliau o weithio ar y cyd a datblygiad proffesiynol gan gynnwys:

- E-rwydweithiau, a defnyddio e-gyfryngau (megis blogiau, wikis, Moodle, Ning etc)
- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb
- Cynadleddau
- Digwyddiadau hyfforddi

Ymhlith y materion eraill a nodwyd roedd:

- Yr angen am hwyluswyr drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer grwpiau rhwydwaith pynciau penodol
- Y galw am gyfleoedd hyfforddi ar gyfer gweithlu ehangach yr ysgolion a nodwyd gan bob grŵp
- Gwella'r ymwybyddiaeth o ddatblygiadau cenedlaethol
- Ffocws ar ddysgu ac addysgu, a fframwaith sgiliau (gyda chyd-destun priodol)
- Rhannu adnoddau arbenigol e.e. Adnoddau Cymraeg
- Datblygu dogfennau a syniadau ar y cyd a'u rhannu
- Byddai dolenni a gwybodaeth am ddarparwyr gwybodaeth/cefnogaeth o bwys yn ychwanegiad defnyddiol i wefan swamwac e.e., GCaD, CBAC, CACC, CDAG etc.
- Byddai cofrestr o ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy, gan gynnwys darparwyr cenedlaethol, ac ymarferwyr profiadol mewn ysgolion, yn ddefnyddiol
- Dylid ehangu rhannu arfer da
- Galw am gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth a rheoli, er y byddai'r gwaith cyfredol ar Athrawon Siartredig, a modiwlau Rheolwyr Canol yn helpu i fynd i'r afael â hyn
- Asesu ar gyfer dysgu
- Lleihau biwrocratiaeth
- Iechyd a lles emosiynol/ hunan-niweidio
- Materion Cyfreithiol ac AD
- Iechyd a diogelwch
- Trin a thrafod rhieni
- Hyfforddiant DGSA.
- Argaeledd adnoddau

Caiff canlyniadau defnyddiol y gynhadledd eu dadansoddi ymhellach, gan gyfeirio gwaith rhaglen barhaus datblygiad proffesiynol, a datblygu'r wefan.

Cyfnod Sylfaen
Ar 20 Tachwedd, daeth tua 170 o bobl o ysgolion ar draws y rhanbarth ac a oedd yn cynrychioli'r holl AALl, i'r hyn a brofodd yn gynhadledd lwyddiannus iawn o'r enw 'O Lindys i Ieir Bach yr Haf', yng ngwesty'r Strade, Llanelli. Ymwelodd yr awdur byd-enwog a helaeth ei chyhoeddiadau, Galina Dolya, ac awdur 'Technology of Child Development' â Chymru am y tro cyntaf i arwain y diwrnod prysur a chyffrous hwn, gan ganolbwyntio ar y cwricwlwm cyfoethogi i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar. Cafodd y cynadleddwyr gyfle i gymryd rhan mewn sawl gweithgaredd dysgu ymarferol, gan fynd ag amrywiaeth helaeth o syniadau ac adnoddau adref gyda hwy. Roedd yr ymateb i'r gynhadledd yn hynod o gadarnhaol Bydd diwrnod dilynol i unrhyw ysgol a fynychodd y gynhadledd yn cael ei gynnal yng Nghaerfyrddin ar ddiwedd Ionawr.

Cysylltiadau

Swyddfa'r Consortiwm a Hwyluswyr
Gallwch gysylltu â swyddfa swamwac neu unrhyw un o'r hwyluswyr ar 01267 676840 neu e-bostiwch: admin@swamwac.org

Cadw mewn Cysylltiad

Trosglwyddwch y bwletin hwn i unrhyw un sydd â diddordeb a'i osod ar fwrdd hysbysebu'r staff yn eich ysgol neu ardal waith.

Rydym yn croesawu sylwadau ynghylch sut mae gwaith y consortiwm wedi'ch helpu chi, neu awgrymiadau ynghylch sut y gallai eich helpu yn y dyfodol. Os oes gennych unrhyw ddigwyddiadau y byddech yn hoffi eu hysbysebu ymhlith cydweithwyr ar draws awdurdodau swamwac, yna e-bostiwch admin@swamwac.org

Rhannu arfer/datblygu astudiaethau achos
Ein bwriad yw gwneud gwefan swamwac yn adnodd defnyddiol i ysgolion, ac os ydych yn datblygu a/neu'n dymuno rhannu astudiaethau achos a gwybodaeth am arfer da ar y wefan, neu ddarparu erthyglau neu ddolenni i wybodaeth ddefnyddiol arall, e-bostiwch admin@swamwac.org. i gael gwybodaeth am sut i wneud hynny.